

Prifysgol Bangor

Polisi Beichiogrwydd, Mamolaeth a Rhiant i Fyfyrrwyr

Tachwedd 2022

## Cynnwys

1. Rhagarweiniad
2. Cynnwys y Polisi
3. Datganiad Polisi
4. Hawliau a Chyfrifoldebau
  - 4.1 Yn achos myfyrwyr a ddaw'n feichiog yn ystod eu hastudiaethau
  - 4.2 Yn achos tadau a phartneriaid sydd â chyfrifoldeb dros fagu'r plentyn
  - 4.3 Yn achos myfyrwyr sydd ar fin dod yn rhieni (e.e. drwy fabwysiadu)
5. Casglu a monitro data
6. Cwynion
7. Canllawiau i staff
8. Ffynonellau gwybodaeth a chymorth

## 1. Rhagarweiniad

Mae'r Polisi hwn yn rhoi cyngor a chyfarwyddyd i'r canlynol:

- Myfyrwyr a ddaw'n feichiog yn ystod eu hastudiaethau, i'w partneriaid, ac i'r rhai hynny sydd newydd ddod yn rhieni'n ddiweddar (e.e. drwy fabwysiadu) ar faterion yn gysylltiedig â'u hastudiaethau
- Aelodau staff y Brifysgol y gallai eu gwaith gynnwys cyngori myfyrwyr a ddaw atynt gyda'r materion hyn.

## 2. Cynnwys y Polisi

Mae'r polisi'n cynnwys unrhyw fyfyrwraig a ddaw'n feichiog yn ystod ei hastudiaethau, a myfyrwyr sydd ar fin dod yn dadau. Mae hefyd yn cynnwys unrhyw fyfyrwr sy'n bartner (yn cynnwys partner o'r un rhyw) rhywun sy'n feichiog, ac sy'n disgwyl bod yn gyfrifol am y plentyn, ac unrhyw fyfyrwr sy'n dod yn rhiant (e.e. drwy fabwysiadu).

## 3. Datganiad Polisi

Cred y Brifysgol na ddylai dod yn feichiog neu ofalu am blentyn, ynddo'i hun, atal unrhyw fyfyrwr rhag llwyddo yn eu hastudiaethau. Mae'r Brifysgol wedi ymrwmo i ddangos gymaint o hyblygrwydd ag sy'n bosib i hwyluso llwyddiant myfyrwr, gan wneud yn siŵr nad oes unrhyw fyfyrwr dan anfantais o ganlyniad, gan gadw safonau academiaidd yr un pryd. Bydd faint o hyblygrwydd y gellir ei gynnig yn amrywio rhwng rhaglenni astudio, ond bydd pob Ysgol yn dilyn y drefn gyffredinol a nodir yn y ddogfen hon.

Bydd safbwynt y Brifysgol yn adlewyrchu'r egwyddorion arweiniol fel y nodir yn nogfen yr Uned Herio Cydraddoldeb (*Equality Challenge Unit*) 'Student pregnancy and maternity: implications for institutions of higher education' sef;

- osgoi triniaeth llai ffafriol
- gweithredu mewn modd hyblyg
- gweithredu mewn modd sensitif a pheidio â barnu
- gwneud penderfyniadau gwybodus

Bydd iechyd a diogelwch y fyfyrwraig feichiog yn hollbwysig drwy'r amser, a dylid ymdrin â phob myfyrwr y mae'r polisi hwn yn berthnasol iddynt mewn modd sensitif, cyfrinachol, na fydd yn barnu.

Dim ond aelodau staff y mae angen eu hysbysu am resymau dilys fydd yn cael gwybod am amgylchiadau myfyrwr, a gwneir hyn gyda chydysyniad y myfyrwr ymlaen llaw yn unig.

Mae'r polisi'n canolbwyntio'n bennaf ar faterion yn gysylltiedig ag astudiaethau, ond ceir hyd i ffynonellau cymorth a chyngor ar faterion cysylltiedig ar ddiwedd y ddogfen.

## 4. Hawliau a chyfrifoldebau

Mae'r adran hon yn ymdrin â hawliau a chyfrifoldebau i fyfyrwyr, staff a'r Brifysgol

### 4.1 Yn achos myfyrwyr a ddaw'n feichiog yn ystod eu hastudiaethau

#### 4.1.1 Cadarnhau'r beichiogrwydd

Os bydd myfyrwraig yn datgelu ei beichiogrwydd, nid oes ar y Brifysgol angen gofyn am dystiolaeth. Os oes ar y Brifysgol angen ystyried effaith y beichiogrwydd ar bresenoldeb neu gyrhaeddiad academaidd myfyriwr, gall ofyn am dystiolaeth ar ffurf apwyntiadau a llythyrau gan fyfyrwraig neu feddyg teulu'r fyfyrwraig.

Ni fydd pob myfyrwraig yn parhau â'i beichiogrwydd i'r cyfnod llawn. Felly dylid ymdrin â gwybodaeth am feichiogrwydd myfyrwraig yn sensitif a'i throsglwyddo â chydysniad y fyfyrwraig yn unig. Os bydd myfyriwr yn penderfynu terfynu'r beichiogrwydd, neu'n colli'r babi, nid oes angen datgelu'r wybodaeth hon i'r Brifysgol. Dylid nodi unrhyw absenoldeb o'r Brifysgol sydd ei angen o ganlyniad fel 'absenoldeb oherwydd salwch', ond nid oes angen rhoi'r rheswm penodol.

#### 4.1.2 Cysylltu â'r Ysgol academaidd

Os bydd y fyfyrwraig yn bwriadu parhau â'i beichiogrwydd, cynghorir ei bod yn rhoi gwybod i rywun yn ei Hysgol gynted ag sy'n bosib. Y tiwtor personol fyddai'r pwynt cyswllt cyntaf fel rheol, ond efallai y bydd y fyfyrwraig yn dewis siarad ag aelod staff arall yn y lle cyntaf y mae'n teimlo'n fwy cyfforddus ag ef/â hi. Fodd bynnag, dylai myfyrwyr nodi y bydd angen hysbysu'r tiwtor personol gynted ag sy'n bosib fel y gellir rhoi'r gefnogaeth briodol.

Dim ond os bydd y fyfyrwraig yn rhoi gwybod i aelod staff ei bod yn feichiog y gall y Brifysgol wneud darpariaeth ar ei chyfer.

#### 4.1.3 Goblygiadau ar gyfer astudio

Bydd aelod staff yr Ysgol yn cwrdd â'r fyfyrwraig i drafod sut mae'r beichiogrwydd yn debygol o effeithio ar ei hastudiaethau a gall wneud asesiad risg (gwelwch 4.1.7). Efallai y ceir toriad yn yr astudiaethau, gan ddibynnu ar pryd mae'r babi i fod i gyrraedd. Bydd y fyfyrwraig yn penderfynu, gyda chynghor priodol, (1) a oes angen toriad (gohirio) astudiaethau a (2) os felly, y cyfnod y mae angen i hyn ei gynnwys. Mae angen i'r penderfyniad hwn ystyried gofynion academaidd cwrs y myfyriwr. Dylid cyfeirio'r fyfyrwraig wedyn at y Pennaeth Cefnogi Myfyrwyr yn y Gwasanaethau Myfyrwyr i gael rhagor o gyngor, ac i fynd ymlaen â'r broses o ohirio astudiaethau.

<http://www.bangor.ac.uk/regulations/BUProc07-v201501.pdf>

Dylai'r tiwtor personol neu aelod staff penodedig arall lunio cynllun ysgrifenedig (gwelwch atodiad 1 am y templed a awgrymir gan yr Uned Herio Cydraddoldeb) yn nodi unrhyw drefniadau arbennig sydd eu hangen yn ystod beichiogrwydd y fyfyrwraig: pryd mae'r fyfyrwraig yn debygol o ddechrau ei habsenoldeb oherwydd mamolaeth; pa wybodaeth fydd angen ei chyflwyno, y dull cyfathrebu

fyddai orau ganddi yn ystod ei habsenoldeb, a'r amserlen y cytunir arni iddi ddychwelyd i'w hastudiaethau.

Dylai'r fyfyrwraig dderbyn copi o hon, ynghyd ag aelodau staff priodol eraill y mae arnynt angen y wybodaeth (yn cynnwys, lle bo angen, trefnwyr Byrddau Arholi a Chadeiryddion Pwyllgorau Amgylchiadau Lliniarol). Dylid cael caniatâd y fyfyrwraig cyn trosglwyddo gwybodaeth.

Ar gyfer myfyrwyr rhyngwladol o'r tu allan i'r UE, edrychwch ar baragraff 4.1.10

Os bydd y fyfyrwraig yn parhau i astudio yn ystod ei beichiogrwydd, dylai gwrdd yn rheolaidd â'i Thiwtor Personol neu aelod staff penodedig arall, i asesu effeithiolrwydd unrhyw drefniadau arbennig a roddir ar waith. Gellir gwneud rhagor o addasiadau os bydd angen.

#### 4.1.4 Aseidiadau ac Arholiadau

Os bydd myfyrwraig ar fin rhoi genedigaeth yn agos at ddyddiadau cyflwyno aseidiadau neu'r cyfnod arholiadau, neu yn ystod y cyfryw ddyddiadau, a'i bod yn dymuno cwblhau ei gwaith neu sefyll ei harholiadau, ni ddylid ei hatal rhag gwneud hynny. Dylai iechyd, diogelwch a lles y fyfyrwraig fod yn holl bwysig drwy'r amser.

Mewn arholiadau, efallai y bydd ar fyfyrwyr bechiog angen seibiannau, ac efallai y bydd arnynt angen mynd i'r toiled yn fwy aml. Efallai y bydd arnynt angen cadair fwy cyfforddus ac sy'n eu cynnal yn well, neu addasiadau eraill, gan ddibynnu ar natur yr arholiad.

Mae Swyddog Arholiadau'r Brifysgol yn gyfrifol am gytuno ar unrhyw addasiadau safonol y gellir eu gwneud i fyfyrwyr bechiog sy'n gwneud arholiadau.

Os oes myfyrwraig yn bryderus ynghylch sefyll arholiadau neu gyflawni gwaith i'w asesu erbyn dyddiadau cyflwyno penodol, neu os oes ganddi gyflwr iechyd yn gysylltiedig â'i beichiogrwydd sy'n waeth oherwydd straen, dylid ei chynghori i ofyn am gyngor gan ei bydwraig neu feddyg teulu. Os mai'r cyngor yw na ddylai sefyll arholiad neu geisio cyflawni gwaith erbyn dyddiad penodol, dylid edrych ar ddull asesu arall, yn unol â Rheoliadau'r Brifysgol ar Asesu. Os na all ymgymryd â dull asesu arall, dylai'r fyfyrwraig gyflwyno ffurflen Amgylchiadau Lliniarol ynghyd â thystiolaeth ategol gan ei meddyg teulu neu fydwraig; gall y Pwyllgor priodol wedyn benderfynu i gytuno ar estyniad neu ohirio arholiad.

#### 4.1.5 Gwaith maes

Lle bo'r fyfyrwraig yn bwriadu cymryd rhan mewn gwaith maes fel rhan o'i hastudiaethau, dylid cynnwys hyn yn yr asesiad risg a wneir gan yr Ysgol oherwydd efallai y bydd peryglon penodol yn gysylltiedig â'r gwaith maes; dylai'r fyfyrwraig drafod hyn yn llawn gydag aelod staff priodol.

O ddechrau 7fed mis y beichiogrwydd, caniateir i fyfyrwyr gymryd rhan mewn gwaith maes ar ôl gwneud asesiad risg yn unig, gan ystyried natur y gwaith maes dan sylw ac iechyd y fyfyrwraig. Ni chaniateir i fyfyrwyr gymryd rhan mewn gwaith maes ar ôl 35 wythnos o feichiogrwydd.

#### 4.1.6 Lleoliad / astudio dramor

Os bydd myfyrwraig yn dod yn feichiog ar leoliad neu flwyddyn astudio dramor, rhaid iddi gysylltu â'r Ysgol i wneud cynlluniau priodol i sicrhau bod ei hiechyd (ac iechyd ei babi) yn cael ei ddiogelu a bod cynnydd academiaidd yn cael ei reoli'n briodol.

Os yw'n ofynnol i fyfyrwraig wneud lleoliad yn ystod ei beichiogrwydd, rhaid i'r Ysgol gysylltu â darparwr y lleoliad i sicrhau y gwneir asesiad iechyd a diogelwch. Dylai myfyrwraig hefyd nodi trefn y Brifysgol ar gyfer dysgu ar leoliad.

#### 4.1.7 Ailddechrau astudiaethau

Bydd y Pennaeth Cefnogi Myfyrwraig yn cysylltu â'r fyfyrwraig (os ydyw'n fyfyrwr is-radd) i gadarnhau pryd y bydd yn dychwelyd cyn y dyddiad dychwelyd y cytunwyd arno. Ar ôl cadarnhau hyn, dylai'r fyfyrwraig gysylltu â'i Hysgol i drafod ail-integreiddio i'w hastudiaethau, a dylid rhoi gwybodaeth iddi megis ei hamserlen ac unrhyw ddyddiadau priodol y bydd angen gofal plant ar eu cyfer o bosib. e.e. teithiau maes, dyddiadau arholiadau.

Bydd yr un peth yn berthnasol i fyfyrwraig ôl-radd, ond bydd angen i'r fyfyrwraig gadarnhau pryd y bydd yn dychwelyd gyda'r Gofrestrfa Academiaidd a fydd, yn eu tro, yn hysbysu'r Ysgol academiaidd.

Bydd angen i fyfyrwraig ôl-radd gadarnhau eu dychweliad gyda Gweinyddu Myfyrwraig a fydd yn eu tro'n hysbysu'r ysgol academiaidd.

#### 4.1.8 Iechyd a Diogelwch

Efallai y bydd angen rhoi mesurau iechyd a diogelwch ar waith er mwyn amddiffyn y fyfyrwraig a'i babi yn y groth, a bydd hyn yn arbennig o berthnasol mewn rhai Ysgolion.

Ar ôl i'r fyfyrwraig roi gwybod am ei beichiogrwydd i'w Hysgol, bydd yr Ysgol yn gwneud Asesiad Risg yn benodol ar gyfer yr unigolyn yn achos myfyrwraig is-radd, neu bydd y Gwasanaethau Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol yn gwneud hyn yn achos myfyrwraig ôl-radd. Bydd hyn yn nodi unrhyw risgiau a all fod yn bresennol a allai niweidio'r fyfyrwraig neu ei babi, a rhoi manylion y camau sydd angen eu cymryd i liniaru neu leihau'r risgiau hyn. Dylai hefyd roi manylion unrhyw risgiau a all godi o unrhyw gyfnod lleoliad neu waith maes sydd i'w wneud (gwelwch 4.1.4/5).

Os nad yw'n ymarferol gwneud yr addasiadau sy'n ofynnol gan yr Asesiad Risg, neu na ellir osgoi'r risgiau a nodwyd, efallai y bydd angen i'r fyfyrwraig gymryd amser i ffwrdd o'i hastudiaethau. Serch hynny, dylai'r Ysgol wneud pob ymdrech, lle bo'n bosib, i reoli'r risgiau iechyd a Diogelwch, a dod o hyd i ffyrdd eraill o alluogi i'r fyfyrwraig barhau â'i chwrs os nad yw gohirio'n cyd-fynd â'i dymuniadau.

Y risg mwyaf i fabi yn y groth yw yn ystod 13 wythnos gyntaf y beichiogrwydd, ac felly mae'n bwysig bod y fyfyrwraig yn rhoi gwybod i'r Brifysgol mor fuan ag sy'n bosib.

Ni ddylai unrhyw fyfyrwraig sydd wedi rhoi genedigaeth ddychwelyd i'r Brifysgol o fewn pythefnos i roi genedigaeth; y mae hyn yn unol â Chyfraith Cyflogaeth.

Mae Bwrsariaethau Myfyrwyr y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yn argymhell o leiaf 12 wythnos o absenoldeb mamolaeth, ond mae'n caniatáu i fyfyrwyr ddychwelyd yn gynt gyda chymeradwyaeth gweithiwr gofal iechyd proffesiynol.

#### 4.1.9 Ystyriaethau Cyllidol

Dylai myfyrwyr is-radd ofyn am gyngor gan eu corff cyllido eu hunain e.e. Cyllid Myfyrwyr Cymru neu Student Finance England i ganfod pa gymorth ariannol y bydd ganddynt hawl iddo yn ystod y beichiogrwydd ac ar ei ôl, gan fod pecyn o gefnogaeth ar gael i fyfyrwyr sy'n rhieni. Am gyngor a chefnogaeth unigol, gall myfyriwr gysylltu â'r Uned Cefnogaeth Ariannol yn y Gwasanaethau Myfyrwyr neu'r Tîm Cefnogi Lles Myfyrwyr Rhyngwladol.

Dylai myfyrwyr ôl-radd ac ymchwil sy'n derbyn cyllid gan gyrff allanol ddilyn y cyfarwyddyd ar gyfer eu cynllun penodol. neu gysylltu â'u corff cyllido neu noddwr am ragor o gyngor.

#### 4.1.10 Myfyrwyr rhyngwladol o wledydd y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd

Mae'r Polisi Beichiogrwydd a Mamolaeth i Fyfyrwyr yn berthnasol i bob myfyriwr sy'n astudio ym Mhrifysgol Bangor; fodd bynnag, rhaid ystyried pwyntiau ychwanegol yn ymwneud â myfyrwyr rhyngwladol o'r tu allan i'r UE a rhaid ystyried eu rhwymedigaethau mewnfudo.

Oherwydd rheoliadau cymhleth yng nghyswllt mewnfudo a fisa i fyfyrwyr rhyngwladol, dylid gwneud unrhyw benderfyniadau ynghylch toriadau i astudiaethau, estyniadau i hyd rhaglenni a chynlluniau i ddychwelyd i astudio, mewn ymgynghoriad â thîm lles y Ganolfan Addysg Rhyngwladol. Mae hyn yn berthnasol i absenoldeb mamolaeth a thadolaeth.

Rhaid i fyfyrwyr rhyngwladol gyda noddwyr ariannol gysylltu â'u noddwyr gynted ag sy'n bosib i gyntuno ar gynllun gweithredu (megis gohirio astudiaeth/ailddechrau astudiaeth etc.).

Efallai y bydd yn well gan y myfyrwyr rhyngwladol hynny nad oes hawl ganddynt i unrhyw fudd-daliadau mamolaeth yn y Deyrnas Unedig ddychwelyd adref yn ystod eu beichiogrwydd. Dylid cofio na fydd y rhan fwyaf o gwmnïau awyrennau yn cludo teithwyr sydd yn eu 7fed mis neu fwy o'u beichiogrwydd, a dylid ystyried hyn wrth gynllunio.

Rydym yn cynghori'r myfyrwyr rhyngwladol yn daer i geisio arweiniad cyn gynted â phosibl, yn enwedig os ydynt yn ystyried dychwelyd i'w mamwlad, cyn neu ar ôl rhoi genedigaeth, fel eu bod yn gwbl ymwybodol o statws mewnfudo plant a aned yn y Deyrnas Unedig.

Cewch ragor o wybodaeth ar-lein yma: [UKCISA - cyngor ac arweiniad rhyngwladol i fyfyrwyr - Dibynyddion](#). Gall myfyrwyr rhyngwladol hefyd gysylltu â [Chefnogaeth Rhyngwladol](#).

Mae'n ofynnol i'r Brifysgol roi gwybod am unrhyw fyfyriwr cofrestredig Haen 4 sy'n trefnu Toriad i Astudiaethau i Asiantaeth Ffiniau'r DU. Gellir gofyn i'r cyfryw fyfyrwyr adael y DU yn ystod eu cyfnod o ohirio astudiaethau.

#### 4.1.11 Llety

Efallai y bydd myfyrwyr a ddaw'n feichiog a hwythau'n byw mewn llety prifysgol yn canfod nad yw hyn yn addas mwyach am resymau iechyd a diogelwch. Dan y cyfryw amgylchiadau, gellid rhyddhau myfyrwyr o'u contractau. Dylid gofyn am gyngor gan y Swyddfa Neuaddau. Yn anffodus, nid oes gan y Brifysgol unrhyw lety teulu felly ni fyddai'r fyfyrwraig yn gallu parhau i fyw mewn neuadd ar ôl yr enedigaeth. Os bydd ar fyfyrwyr angen cymorth i ddod o hyd i lety arall, gallent gysylltu â'r Swyddfa Tai Myfyrwyr.

Dylai myfyrwyr sy'n byw mewn neuaddau preifat gysylltu â'u Rheolwr Neuaddau i gael rhagor o gyngor a gwybodaeth.

Am fwy o ffynonellau cymorth a chefnogaeth, edrychwch ar yr adran 'Ffynonellau Gwybodaeth a Chymorth' ar ddiwedd y ddogfen hon.

#### 4.1.12 Babanod/Plant ar y Campws

Gall myfyrwyr ddod â babanod a phlant i fannau cyhoeddus y brifysgol. Gellir dod â hwy hefyd i gyfarfodydd 1:1 gyda chaniatâd yr aelod staff. Gall myfyrwyr ddod â babanod a phlant hefyd i fannau neu weithgareddau sydd wedi cael eu cymeradwyo gan Bennaeth yr Ysgol (neu rywun a enwebwyd ganddo/ganddi) yn dilyn asesiad risg o'r lleoliad ac/neu weithgaredd.

Rhaid i fyfyrwyr sicrhau bod ganddynt drefniadau gofal plant addas ar adegau pan ddisgwylir iddynt fod yn y brifysgol i weithgareddau addysgu neu ymchwil sydd ar eu hamserlen. Efallai y bydd grant ar gael i israddedigion i helpu gyda chostau gofal plant, a chynghorir myfyrwyr i gysylltu â'u darparwr cyllid am wybodaeth. Ni ddylai myfyrwyr ddod â babanod neu blant i'r brifysgol gan ddisgwyl y bydd aelod staff neu gyd-fyfyrwr yn cymryd cyfrifoldeb dros ofalu am y plentyn tra bo'r myfyrwr mewn dosbarthiadau.

Mewn argyfwng gall myfyrwyr ddod â phlant i ddarlithoedd, ond nid fel rheol i seminarau neu diwtorialau i grŵp bychan. Nod y brifysgol yw gweithredu mewn ffordd hyblyg, ond gall darlithwyr wrthod mynediad am un neu ragor o'r rhesymau a ganlyn:

1. Byddai presenoldeb plentyn yn tarfu ar y ddarlith.
2. Bod pryderon ynghylch iechyd a diogelwch.
3. Bod testun y ddarlith yn amhriodol i blentyn.
4. Bod y plentyn wedi ei gadw o ysgol neu feithrinfa oherwydd bod cyflwr heintus arno/arni.

#### 4.1.13 Bwydo o'r fron

Mae ystafell benodol ar gyfer bwydo o'r fron ar gael yn Neuadd Rathbone (Ystafell 209, Llawr daear), fodd bynnag, efallai na fydd y lleoliad hwn yr un mwyaf ymarferol i'r myfyrwr bob amser. Os felly, dylai Ysgol y fyfyrwraig geisio gwneud trefniadau mwy addas.



Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn amddiffyn yn benodol merched sy'n bwydo o'r fron mewn mannau cyhoeddus, ac mae'n anghyfreithlon gofyn iddynt beidio â gwneud hynny, neu eu hatal rhag gwneud hynny. Os yw myfyrwyr eraill yn anghyfforddus â hyn, er enghraifft, am resymau crefyddol, mae anghenion y fyfyrwraig sy'n bwydo o'r fron yn cael y flaenoriaeth.

## **4.2 Cefnogaeth i dadau a phartneriaid (yn cynnwys partneriaid o'r un rhyw) sydd â chyfrifoldeb dros fagu'r plentyn**

### **4.2.1**

Absenoldeb yn gysylltiedig â thadolaeth

Bydd gan unrhyw fyfyrwr sy'n dod yn dad gan gynnwys mabwysiadu, neu unrhyw bartner i fyfyrwraig feichiog (gan gynnwys partneriaid o'r un rhyw), ac sy'n disgwyl bod yn gyfrifol am fagu'r plentyn gyda'r fam, hawl i ofyn am amser i ffwrdd o astudio. Mae hyn yn debygol o gynnwys amser i ffwrdd ar gyfer apwyntiadau meddygol cyn yr enedigaeth, yn ogystal â chyfnod o absenoldeb cefnogi mamolaeth yn syth ar ôl yr enedigaeth. Dylai myfyrwr yn y cyfryw sefyllfa gysylltu â'i Diwtor Personol neu Gyfarwyddwr/Goruchwyliwr Cwrs i drafod hyn. Dangosir hyblygrwydd lle bo'n bosib, ond yn amlwg bydd llai o hyblygrwydd mewn rhai rhaglenni nag eraill, a dylai myfyrwr fod yn ymwybodol o'r effaith negyddol bosib ar eu hastudiaethau; dylai myfyrwr hefyd nodi na fydd gymaint o hyblygrwydd o bosib lle ceir gofynion allanol.

Os yw myfyrwr eisiau cymryd absenoldeb yn gysylltiedig â thadolaeth, dylai roi gwybod i'w Cyfarwyddwr Cwrs neu Diwtor Personol o leiaf 15 wythnos cyn y dyddiad y disgwylir i'r babi gael ei eni rhag ofn y bydd am fynd i apwyntiadau cyn geni. Bydd y Brifysgol yn caniatáu absenoldeb tadolaeth i dadau a phartneriaid o bythefnos (efo'i gilydd) o fewn 56 diwrnod i enedigaeth y plentyn; y mae hyn yn unol â Chyfraith Cyflogaeth.

### **4.2.2 Asesiadau a lleoliadau**

Os oes myfyrwr yn penderfynu sefyll arholiad tra bydd eu partner yn esgor neu yn ystod eu habsenoldeb yn gysylltiedig â thadolaeth, dylent gael gwybod am drefn Amgylchiadau Lliniarol y Brifysgol. Os na all myfyrwr sefyll arholiad neu gyflwyno gwaith cwrs oherwydd beichiogrwydd neu esgor eu partner, dylent gyflwyno ffurflen Amgylchiadau Arbennig ynghyd â thystiolaeth ategol, er mwyn i'r Pwyllgor priodol allu penderfynu ar ffordd briodol ymlaen.

Os na all myfyrwr gwblhau elfennau gorfodol eraill y rhaglen astudio, fel teithiau maes neu leoliadau gwaith, dylai'r Ysgol ystyried ymarferoldeb eu gwneud yn ddiweddarach, neu wneud asesiad arall; os nad yw hyn yn ymarferol, dylai'r Ysgol roi gwybod y rhesymau i'r myfyrwr yn ysgrifenedig.

### **4.3 Yn achos myfyrwyr sydd ar fin dod yn rhieni (e.e. drwy fabwysiadu)**

Dylai myfyrwyr sydd ar fin dod yn rhieni (e.e. drwy fabwysiadu) roi gwybod eu hamgylchiadau i'w Hysgol gynted ag sy'n bosib fel y gellir gwneud trefniadau addas.

Dim ond un aelod yn unig o gwpl sy'n mabwysiadu ar y cyd a all gymryd absenoldeb mabwysiadu. Mae hyn yn berthnasol waeth a ydyw'r naill neu'r llall, neu'r ddau ohonynt, yn fyfyrwr. Efallai y bydd hawl gan aelod arall y cwpl i gymryd Absenoldeb Tadolaeth.

## **5. Casglu a monitro data**

Er nad oes unrhyw ofynion gorfodol i gasglu data ar fyfyrwyr sy'n feichiog neu rieni newydd, bydd y Brifysgol yn casglu data yn ystod y broses gofrestru. Bydd y Pennaeth Cefnogi Myfyrwyr yn casglu ystadegau ar fyfyrwyr y maent wedi bod yn ymwneud â'u cefnogi.

## **6. Cwynion**

Gall unrhyw fyfyrwr sy'n teimlo bod y Brifysgol wedi methu cydymffurfio gyda safonau'r polisi hwn gyflwyno cwyn yn unol â Threfn Gwyno Myfyrwyr y Brifysgol.

<http://www.bangor.ac.uk/regulations/BUCode01-v201101.pdf>

Awgrymir bod problemau'n cael eu datrys mor anffurfiol â phosib yn y lle cyntaf.

## **7. Canllawiau i Staff**

Mae'r adran hon yn rhoi canllawiau ar gefnogi myfyrwyr y mae'r polisi hwn yn berthnasol ar eu cyfer, i'w defnyddio gan unrhyw aelod staff gyda rhan mewn cynghori neu gefnogi myfyrwyr. Rhaid i staff sicrhau bob amser nad yw'r myfyrwyr hynny'n cael eu trin yn llai ffafriol nag unrhyw fyfyrwr arall ar sail eu hamgylchiadau. Yn unol â rhwymedigaethau cyfreithiol y Brifysgol, dylid dangos hyblygrwydd, lle bo'n bosib, i sicrhau bod dysgu parhaus yn cael ei hwyluso. Dylid ymdrin â gwybodaeth a roddir gan fyfyrwyr yn gyfrinachol (a'i throsglwyddo lle bo angen yn unig a chyda chydysniad y fyfyrwraig) a chyda sensitifrwydd.

### **7.1 Cyd-destun cyfreithiol**

Bu i Ddeddf Cydraddoldeb 2010 gryfhau'n sylweddol amddiffyniad cyfreithiol i ferched yn ystod beichiogrwydd a mamolaeth sy'n awr yn rhinweddau gwarchoddedig. Mae Adran 17 y Ddeddf yn ehangu amddiffyniad rhag gwahaniaethu'n erbyn merched y tu allan i'r gweithle, a noda'n benodol y sector addysg uwch (yn cynnwys ymgeiswyr i addysg uwch).

Dan y Ddeddf, mae'n anghyfreithlon i sefydliadau addysg uwch wahaniaethu yn erbyn ymgeiswyr a myfyrwyr mewn perthynas â derbyniadau; darparu addysg; mynediad at unrhyw fudd-dal, cyfleuster neu wasanaeth; a threfniadau disgyblu.

## 7.2 Penderfyniadau myfyrwyr

Pan fo myfyrwraig yn rhoi gwybod i'r Brifysgol ei bod yn feichiog, mae'n bwysig ei bod yn derbyn cefnogaeth a chynghor cyson a diduedd i'w galluogi i wneud dewisiadau cytbwys; mae'n bwysig nad yw'n cael ei barnu'n negyddol ac nad ofynnir cwestiynau amhriodol fel "Wyt ti'n siŵr dy fod di'n barod am hyn dy oed di?"

Ni ddylai staff geisio dylanwadu ar benderfyniad unrhyw fyfyrwr na chymryd na ddymunir y beichiogrwydd neu gymryd ei fod heb ei gynllunio. Yn hytrach, dylent roi cynghor diduedd.

Ni ddylid gwneud rhagdybiaethau ynghylch a yw'r fyfyrwraig yn bwriadu mynd ymlaen â'i beichiogrwydd ar sail ei hoed, anabledd, hunaniaeth gender, hil, crefydd neu gred, statws cymdeithasol-economaidd, cyfeiriadedd rhywiol neu'r cam y mae arno yn ei hastudiaeth neu ymchwil.

## 7.3 Cefnogi'r myfyrwyr

Gellir defnyddio nifer o fesurau er mwyn galluogi i'r fyfyrwraig barhau i astudio mor hir ag sy'n ddiogel, a chefnogi'r fyfyrwraig cyn ac ar ôl toriad mewn astudiaethau. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Caniatáu amser i ffwrdd o astudio (am gyfnod a bennir ymlaen llaw) ar gyfer yr enedigaeth a chyfnod wedi hynny. Ar gyfer cyfnodau estynedig o absenoldeb, dylid trefnu toriad mewn astudiaethau (drwy'r Gwasanaethau Myfyrwyr ar gyfer israddedigion, a chyfarwyddwr neu oruchwyliwr y cwrs ar gyfer ôl-raddedigion), ond gwelwch Bolisi'r Brifysgol ar gyfer Cymeradwyo Toriadau i Astudiaethau <http://www.bangor.ac.uk/regulations/BUProc07-v201501.pdf>
- Cyn ac ar ôl y geni, rhoi caniatâd am gyfnodau o absenoldeb ar gyfer apwyntiadau meddygol, a gwneud trefniadau i'r fyfyrwraig ddal i fyny gyda dosbarthiadau a gollwyd
- Gellir awdurdodi estyniadau i ddyddiadau cyflwyno os yw amgylchiadau'r fyfyrwraig yn ei gwneud yn anodd cyflawni'r gwaith mewn pryd.
- Caniatáu i arholiadau ailsefyll gyfrif fel ymgais gyntaf pan fo'r beichiogrwydd neu'r enedigaeth yn rhwystro'r fyfyrwraig rhag eu sefyll yn yr ymgais gyntaf arferol
- Ystyried unrhyw geisiadau gan israddedigion i drosglwyddo i astudiaeth ran-amser lle bo hyn yn bosib (ond dylai'r fyfyrwraig gofio am oblygiadau ariannol cymryd y camau hyn). Dylai staff gyfeirio'r fyfyrwraig ar y Tîm Cefnogi Myfyrwyr am gyngor yn yr amgylchiadau hyn.

Ar gyfer myfyrwyr rhyngwladol, mae angen ystyried goblygiadau fisa cyn y gellir cytuno ar newid dull presenoldeb oherwydd efallai na fydd statws eu fisa yn caniatáu astudiaeth ran-amser. Yn y cyfryw achosion, dylid cyfeirio myfyrwyr at y Tîm Lles Myfyrwyr Rhyngwladol.

- Cynnig cefnogaeth i helpu'r myfyrwr ailintegreiddio i'w hastudiaethau ar ôl unrhyw gyfnod o absenoldeb estynedig

Mae'n bwysig ystyried barn a dymuniadau'r myfyriwr, yn hytrach na defnyddio set safonol o drefniadau. Dylid trafod â'r myfyriwr cyn gwneud unrhyw benderfyniad.

Er y dylid bod yn hyblyg i raddau, dylid gofalu nad yw safonau academiaidd yn cael eu bygwth. Rhaid cael cydbwysedd rhwng sicrhau nad yw'r fyfyrwraig dan anfantais, a rhoi triniaeth arbennig amhriodol. Nid oes raid i'r Brifysgol ganiatáu pob cais a wneir, ond dylid gwneud ymdrechion i gyflawni ceisiadau rhesymol. Ni ddylid gwrthod ceisiadau yn unig ar y sail o fod yn rhy gostus i'w gweithredu, ond ystyrir hyn o angenrheidrwydd wrth asesu 'rhesymolrwydd' cyffredinol cais. Os gwrthodir unrhyw gais, dylid rhoi'r rhesymau dros wrthod yn ysgrifenedig i'r fyfyrwraig.

Pan fo angen gwneud trefniadau penodol ar gyfer myfyrwraig y caniatawyd trefniadau ychwanegol iddi eisoes (e.e. ar sail anabledd), dylid cadw'r rhain ar wahân fel ei fod yn parhau'n glir pa drefniadau sy'n gysylltiedig â pha amgylchiadau penodol. Mae hyn yn sicrhau bod y trefniadau hyn mewn grym ar gyfer yr amser sydd ei hangen, a hefyd yn ei gwneud yn glir y cedwir at wahanol rannau o ddeddfwriaeth.

Os oes ar staff angen cyfarwyddyd mwy manwl, gellir gofyn am gyngor ar unrhyw un o'r uchod gan y Pennaeth Cefnogi Myfyrwyr, a cheir hyd i gyfarwyddyd yr Uned Herio Cydraddoldeb yn: <http://www.ecu.ac.uk/publications/student-pregnancy-and-maternity/>

## 8. Ffynonellau gwybodaeth a chymorth

Gwefannau ardderchog i gael cyngor am bob agwedd ar feichiogrwydd, geni a gofal ôl-eni:

- <http://www.nhs.uk/conditions/pregnancy-and-baby/pages/pregnancy-and-baby-care.aspx?tabname=Getting%20pregnant>
- [www.nct.org](http://www.nct.org)
- [www.tommys.org](http://www.tommys.org)

Manylion cyswllt y clinigau cynllunio teulu/clinigau iechyd rhywiol lleol:

<http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/861/page/51457>

Cyngor cefnogol, diduedd ac anfeirniadol am feichiogrwydd heb ei gynllunio a chael erthyliad:

<http://www.bpas.org/bpaswoman>

Cefnogaeth ar gyfer colli beichiogrwydd a chefnogaeth i deuluoedd mewn profedigaeth.: [Sands | Saving babies' lives. Supporting bereaved families.](#)

Cyngor ariannol ym Mhrifysgol Bangor:

[www.bangor.ac.uk/studentssupportservices/moneysupport](http://www.bangor.ac.uk/studentssupportservices/moneysupport)

Manylion cyswllt neuaddau preswyl y Brifysgol:

<http://www.bangor.ac.uk/accommodation/contact.php.en>

Cyngor ynghylch tai yn y sector preifat ym Mhrifysgol Bangor:

<http://www.bangor.ac.uk/studentsservices/studenthousing/>

Cyngor Ar Bopeth ar-lein:

[www.adviceguide.org/benefitsforfamiliesandchildren](http://www.adviceguide.org/benefitsforfamiliesandchildren)

Gwybodaeth am y budd-daliadau sydd ar gael a sut i wneud cais:

<http://www.nhs.uk/conditions/pregnancy-and-baby/pages/maternity-paternity-leave-benefits.aspx>

Cyngor a chefnogaeth arbenigol i rieni sengl:

[www.gingerbread.org.uk](http://www.gingerbread.org.uk)

Cewch ragor o wybodaeth ar-lein yma: [UKCISA - cyngor ac arweiniad rhyngwladol i fyfyrwyr - Dibynyddion. Gall myfyrwyr rhyngwladol hefyd gysylltu â Chefnogaeth Ryngwladol.](#)